# GALARNAD

AR OL

## Y PARCHEDIG HOWELL HOWELLS,

GYNT O

**DREHILL, SWYDD FORGANWG,**

*Yr hwn a fu farw ar y 19eg o Ionawr, MDCCCXLII, yn y 92 flwydd o'i oed.*

A gyhoeddwyd dan nodded Cyfarfod Misol Sir Forganwg.

GAN THOMAS MORGAN, CAERDYDD.

"Fy nhâd, fy nhâd, cerbyd Israel, a'i farchogion."—ELISEUS.

*CAERDYDD:*

ARGRAFFWYD GAN LL. JENKINS, HEOL DUC.

—o—

1842.

[*Pris Dwy Geiniog.*]

## AT Y GALARWYR.

Gan nad oeddwn yn ei ystyried yn addas i roddi yr alarnad a ganlyn yn y wasg, heb yn gyntaf dderbyn cefnogaeth rhai o frodyr gweinidogaethol y trengedig iddi, penderfynais gyflwyno adysgrif o honi i sylw y Cyfarfod Misol, yr hyn a wneuthum drwy law y Parch. E. Matthews, Penllin; a'r llythyr isod, yr hwn a dderbyniais oddiwrtho, a'm cymhellodd i'w chyhoeddi.

Yr eiddoch,

T. M.

*Caerdydd, Mawrth* 5, 1842.

---

Hoffusawl Gyfaill,

Derbyniais adysgrif o'r Farwnad a ysgrifenasoch ar farwolaeth y diweddar Barch. H. Howells, Trehill, ac yr ydwyf yn ei chymeradwyo yn fawr; gan ei hystyried yn dremiant cywir ar gymeriad dilynwiw, ac ysbryd Cristionogol ein hyglod ac hybarchus dad ymadawedig.

Cyflwynais yr Alareb i sylw y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yn Nhon-yr-Efail, Chwefror 24ain a'r 25ain, a chafwyd cymeradwyaeth y cyfarfod hwnw i'r cyfansoddiad, gyda phob annogaeth i'w gyhoeddi.

Ydwyf, anwyl syr,

Eich diffuant gyfaill,

E. Matthews.

*Penllin, Mawrth* 1, 1842.

# GALARNAD, &c.

Ar fesur "Gwel yr Adeilad."

1 Dan lwythau trwm alaethus,
'R y'm beunydd yma'n boenus,
Ac anghysurol;
Dan ddyrnod difai Dofydd,
Waith daear yw ein defnydd,
'R y'm oll yn farwol;
Nid oes ond ing ac angau loes,
A saethau sythion,
Yn dala dynion,
Och! oriau chwerwon,
Sy'n gyson drwy ein hoes,
Rhaid colli pob cyfeillion,
Medd angeu creulon croes.
Ond clyw, y gelyn olaf yw,
'R holl fyd i'w feddiant
Yn serth a syrthiant,
Yn rhwym arosant
Nes clywant udgorn Duw,
Ond wrth y gair, cyfodant
O'r fynwant eto i fyw.

2 Waith cwympo un o'r cewri,
O! pwy all lai eleni,
Mewn gwedd gwynfanus;

Ie, pwy mewn bro a bryniau,
Na fyddant friw eu bronau,
A gwir alarus ;
Pa un, yn dewgroen wr digryn,
Wrth edrych yma,
Yn hael na wyla,
O'r teimlad twyma',
Pan llwyr ddarllena'r llun,
Am dad yn Sïon soniaf,
Darluniaf ddewraf ddyn ;
Trwy'r tir, bydd wylo amser hir,
Ing ac anghysur
Mewn temlau teimlir,
Pwy ddatgan ddolur,
Sydd fel cleddyfau 'n ddûr,
Trwy'r deiliog hoff ardaloedd,
Mae cannoedd dan eu cur.

3 Ow ! yna 'n mro y meirwon
Mae'r hybarch HOWELLS 'r awr hon,
Cul fedd canfyddwn ;
Lle gorwedd yn ddigyffro,
Mewn dyffryn heb ei ddeffro,
Gwel yn Dresimwn ;*
Pwy 'n fawr, rydd llonder ar y llawr,
Dan groesau Cristion,
I'w weddw wiwlon,
Fe dyf o'i dwyfron
Ryw nych gan ochain 'nawr ;

* Y plwyf lle y gorwedd.

Daeth brenin dychryniadau
    Yn noeth â'i gledd i glawr.
Er loes, nid griddfan wnaeth dan groes,
    Un-ar-ddeg cyfain,
    A phedwar ugain,
    Bu'n wych heb ochain,
    O flwyddau 'n dda ei foes,
Wyth mis at hyny, onid
    Hyn ydoedd hyd ei oes.

4 Heb rodres gwir yw'm geiriau,
Llawn fu o bob rinweddau,
    Nid ffraeth ond ffrwythlon;
Fe dynwyd llawer dalen
Rinweddol o'i winwydden;
    B'le mae e weithion?
Rho'wch glust, i'w dymher dda 'rwy'n dyst,
    Ei gu amcanion,
    Rhwydd oedd mewn rhoddion,
    Y mae e'r awrhon,
    Yn berl y'nghoron Crist,
Nid cwyno mwy ond canu
    Fo'n Llanbytheri* drist;
Mae'n wir, dewisai bethau pur,
    Nid gwynt a gwegi,
    Sâl fel sylfeini,
    Wnaeth ef gyhoeddi,
    Tra bu 'n pregethu 'n hir,

* Cartrefle Mrs. Howells, a'r man y treuliodd Mr. H. flyneddoedd olaf ei oes.

Ond croeshoeliedig Iesu,
Rhag c'ledu noddfa glir.

5 I gyfraith Ion yn iawnol
'Mostyngai 'n egwyddorol,
Ei air a barchai;
Iau Crist oedd esmwyth iddo,
A'i faich yn ysgafn arno,
Ac ni rwgnachai;
Bob pryd, fel Daniel, ro'es ei fryd,
Ar ddwys addoli
Ei Dduw heb dewi,
A'i gywir garu,
'Roedd yn amcanu' gyd,
A pharchu'r deddfau dwyfol,
Aeth yn eu hôl o hyd;
Mewn pridd, ei babell salaidd sydd,
O'r lle ei lluniwyd,
Do, fe'i dychwelwyd,
Braidd yw fel breuddwyd;
Fe g'wyd o'r dda'r rhyw ddydd,
Yn fyw ryw fodd o'i feddrod,
Rhyw hynod fynyd fydd.

6 Fe wybu'r ysgrythyrau,
Fel Timotheus yn forau,
'N bedair ar bymtheg;
Ca'dd brofi'r ddifai ddwyfol
Ordd hynod anorchfygol,
Pwy chwennych 'chwaneg?
Yn faith, o Ystradgynlais aeth,
(Lle'i ganwyd ynddo,)

'N lew i Langeitho,
Bob mis i wrando,
Er blino dan y daith,
'Roedd Rowlands enwog yno,
Yn gryno wrth y gwaith;
Nid syn, yn hy 'rwy'n honi hyn,
'Nol cyrhaedd trysor,
Yw 'mofyn rhagor,
Aeth i Landdowror
Am ddysg yn ddwysaf ddyn,
Yn rhwydd mewn rhwysg i'r ysgol,
Bu rasol haeddol un.

7 'Nawr gwel yn Abergwili*
Gan Esgob da Tŷ Ddewi,†
'N ddeuddeg ar hugain;
I'r eglwys hardd fe'i urddwyd,
Un da, fe'i awdurdodwyd,
Wr mawr a mirain;
Dan lwydd bu'n gweini yn ei swydd,
Beth yn Glyncorwg;
Nid oedd un diddrwg,
Na welai'n amlwg,
Wrth aros yn ei wydd,
Mae'n ol y gyfrol orau
'R ymddygai'n ddigon rhwydd;
Bu gwawr ar Saint Nicholas 'nawr,
Nid 'ffeiriad ffurfiol

* Medi 23, 1781, derbyniodd urdd Diacon; a Medi 22, 1782, urdd Offeiriad.

† Dr. Warren.

Oedd Howells dduwiol,
Ond dyn defnyddiol,
A gwir ragorol gawr;
Trwy ras cyhoeddai'r Iesu
I fychan ac i fawr.

8 Bu'n traethu'r gair rhagorol,
Am waed y groes, wr grasol,
Heb dderbyn wyneb,
Mewn eglwys elwig alwant
Llanddiddan Fach: hwy dd'wedant,
Mewn gwir brysurdeb,
Yn llon daeth llu mewn bri o'r bron,
O faith filltiroedd,*
Drwy'r holl ardaloedd,
'Wneud proffes gyhoedd,
O'r Arglwydd ger ei fron,
Pob mis gwnai dori bara,
I'r hardd gyn'lleidfa hon;
Un mawr, dan Esgob Marsh,† yn awr,
At y Trefnyddion,‡
Yr aethai weithion,||
Yn wir heddychlon,
Heb sen yn dda ei sawr,

* Teithid o bump, saith, ië, deg o filltiroedd o bellder, a'r nardus a aroglai ar y bwrdd nes peri iddynt, yn lle cwyno gan ludded y daith, hiraethu am y cyffelyb fwynhad drachefn.

† Esgob Llandaff.

‡ Yr oedd gyda'r Trefnyddion o'r blaen, megis amryw ereill o'r offeiriaid duwiol yn yr oes hòno, ond o'r diwedd llwyr ymadawodd â'r Eglwys Sefydledig, er ymroddi yn fwy trwyadl i wasanaeth y cyfundeb a enwyd.

|| Yn y flwyddyn 1818.

Bu gyda hwynt hyd angau,
Nes llwyr gadawai'r llawr.

9 B'le 'nawr mae'r cyrddau cyhoedd,
A'r enwog gymanfaoedd,
Bu ynddynt droion?
A'i delyn hael a'i hwyliau,
Heb chwerwder gynt yn chwarau,
B'le mae e'r awrhon?
Ai nid dychymyg oedd e'i gyd,
Yr hyn a glywa's
Am 'r hen gymdeithas,
Trwy ras fel eirias,
Yn ffwrnes berwai'r byd;
O'r Bala i Langanna,
Fel gwynad 'n erbyn gwyd;
Gwir yw, 'roedd ganddo enaid byw,
O'i ysgwydd fynu,
'Roedd yn rhagori,
Ar dala'r teulu,
Ni feddai Cymru wiw,
Ei ail mewn gweddi hwyrach,
Ac ymdrech deg* â Duw.

10 B'le mae'r oedfaon buddiol,
A'r cyrddau tra chynhyrfiol,
Bu'r gwron grymus?
A'i gledd am draws pechodau,
Trwy'r mwg a thrwy'r magnelau,
'Mhob lle'n llwyddiannus?

* 2 Tim. iv, 7, 8, testun y Parch. W. Evans, Tonyrefail, ar yr angladd.

Ca'dd wledd, nes neidio do mewn hedd,
Can' waith bu'n moli,
Yn hen Gapeli
Caerdydd, Caerffili,
Trehill, a Chastellnedd,
A'r haul yn teg ddysgleirio,
Nes llwyr anghofio'r bedd ;
Mewn pridd fe'i dodwyd, Och o'r dydd !
Mae mil o ruddiau
Yn colli dagrau,
Ei enaid yntau
Yn gwledda'n siriol sydd,
Mewn nefol wlad heb nwydau,
O bob rhyw rwymau'n rhydd.

11 Bu llawer gŵr rhagorol
Yn gweithio'n dra rhinweddol
Dros achos Iesu ;
Ond hwn trwy ras ddangosodd,
Mai arnynt oll ragorodd,*
Pwy'n wir all wadu ?
Ei hedd, a'i fywgais hyd ei fedd,
Oedd ymddiddanion,
A santaidd ddynion,
O barth i'r moddion,
Wr glew, golyma'i gledd,
Trwy ras yn erbyn rhwystrau,
Ymladdai am y wledd.

* "Nid oes ei dduwiolach i'w gael oddiyno yma," (sef o Drehill i Langefni,) ebe y diweddar Barch. J. Elias, o Fôn.

'Rwy'n dyst, rho'wch glyw bob perchen clust,
Yn rhwydd fe roddodd,
O'i fodd, ryw filo'dd,
Wr byw, fe barodd
Yn gyhoedd, do, i'w gist
Wasanaethu'r fwyn efengyl,
Er cynnal achos Crist.

12 Ei goffa bâr yn bennod
Yn hwy nâ maen ei feddrod,
Pwy yw na wyla?
Och! Soar,* daeth i'th feddiant
Yn llwch dan lechau'r fynwant
Ein tad anwyla';
Bydd mwy deimladau tra oer trwy
Amryw eglwysi
Morganwg, Mynwy,
Caerfyrddin heddy'
Sy'n ochain gyda hwy;
Mae De a Gogledd Cymru,
'Rwy'n credu, dan eu clwy'.
Ond daw y dydd, teg fydd, heb fraw,
Pob cywir galon
Ddianga ddigon
Drwy rhwyfiad 'r afon,
Ac uno'u Tad tu draw,
O fyd yr holl ofidiau,
Ac angau brenin braw.

* Enw y Capel, yn mynwent pa un y gosodwyd ei ran farwol.

---

LL. JENKINS, ARGRAFFYDD, CAERDYDD.